# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU
# NOTICE OF AMENDMENTS

## Cyflwynwyd ar 15 Mawrth 2024
## Tabled on 15 March 2024

## Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)
## Elections and Elected Bodies (Wales) Bill

**Adam Price** **1**

Section 1, page 4, line 24, leave out 'is a former elections officer' and insert 'has formerly been in post as an elections officer within three years of being appointed'.

Adran 1, tudalen 4, llinell 26, hepgorer 'sy'n gyn-swyddog etholiadau' a mewnosoder 'sydd wedi bod mewn swydd fel swyddog etholiadau yn flaenorol o fewn 3 blynedd i gael ei benodi'.

**Adam Price** **2**

Section 3, page 8, after line 30, insert—

'(3) After subsection (1A)(b) of section 9B of the 1983 Act (anonymous registration), insert—

"(1B) The requirement in subsection (1A)(b) to provide evidence in support of an application for anonymous registration does not apply to persons applying for registration in relation to local government elections in Wales and Welsh Parliament elections."'.

Adran 3, tudalen 8, ar ôl llinell 30, mewnosoder—

'(3) Ar ôl is-adran (1A)(b) o adran 9B o Ddeddf 1983 (cofrestru dienw), mewnosoder—

"(1B) The requirement in subsection (1A)(b) to provide evidence in support of an application for anonymous registration does not apply to persons applying for registration in relation to local government elections in Wales and Welsh Parliament elections."'.

**Adam Price** **3**

Section 3, page 8, after line 30, insert—

'(3) After subsection (1) of section 9C of the 1983 Act (removal of anonymous entry), insert—

Senedd Cymru
Welsh Parliament

"(1ZA) If a person has an anonymous entry in a register for local government elections in Wales and Welsh Parliament Elections, the person's entitlement to remain registered continues until such time the person gives notice to be removed."

(4) In section 9C(1) of the 1983 Act, after "Great Britain" insert "other than a register that applies to local government elections in Wales and Welsh Parliament elections".'.

Adran 3, tudalen 8, ar ôl llinell 30, mewnosoder—

'(3) Ar ôl is-adran (1) o adran 9C o Ddeddf 1983 (dileu'r cofnod dienw), mewnosoder—

"(1ZA) If a person has an anonymous entry in a register for local government elections in Wales and Welsh Parliament Elections, the person's entitlement to remain registered continues until such time the person gives notice to be removed."

(4) Yn adran 9C(1) o Ddeddf 1983, ar ôl "Great Britain" mewnosoder "other than a register that applies to local government elections in Wales and Welsh Parliament elections".'.

**Adam Price** **4**

Page 27, after line 25, insert a new section—

*'Welsh language requirement for returning officers*

**[ ] Welsh language requirement for returning officers**

In the table in paragraph (1) of Schedule 6 to the Welsh Language Measure 2011, insert in the appropriate place—

| | |
|---|---|
| "Returning officers appointed under section 35(1)(a) of the Representation of the People Act 1983 | Record keeping standards<br>Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards" |

'.

Tudalen 27, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd—

*'Gofyniad o ran y Gymraeg ar gyfer swyddogion canlyniadau*

**[ ] Gofyniad o ran y Gymraeg ar gyfer swyddogion canlyniadau**

Yn y tabl ym mharagraff (1) o Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg 2011, mewnosoder yn y lle priodol—

| | |
|---|---|
| "Swyddogion canlyniadau a benodir o dan adran 35(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu" |

'.

**Adam Price** **5**

Page 27, after line 25, insert a new section—

‘[ ] **Authorisation to give compliance notice to returning officers in relation to Welsh language standards**

(1) The Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015 (S.I. 2015/996) (“the 2015 Regulations”) are amended as follows.

(2) In regulation 3(1), after the words “county borough councils” insert “, to returning officers”.

(3) After regulation 3(2) insert—

“(3) In this regulation “returning officers” means returning officers appointed under section 35(1)(a) of the Representation of the People Act 1983 (c. 2).”

(4) The amendments made by this section do not affect the power to make further regulations amending or revoking the 2015 Regulations.’.

Tudalen 27, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd—

‘[ ] **Awdurdodiad i roi hysbysiad cydymffurfio i swyddogion canlyniadau mewn perthynas â safonau’r Gymraeg**

(1) Mae Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (O.S. 2015/996) (“Rheoliadau 2015”) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1), ar ôl y geiriau “cynghorau bwrdeistref sirol” mewnosoder “, swyddogion canlyniadau”.

(3) Ar ôl rheoliad 3(2) mewnosoder—

“(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr “swyddogion canlyniadau” yw swyddogion canlyniadau a benodir o dan adran 35(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2).”

(4) Nid yw’r diwygiadau a wneir gan yr adran hon yn effeithio ar y pŵer i wneud rheoliadau pellach sy’n diwygio neu’n dirymu Rheoliadau 2015.’.

**Adam Price** **6**

Page 53, after line 20, insert a new section—

‘*Abolition of the Independent Remuneration Board of the Senedd and transfer of functions*

[ ] **Abolition of the Independent Remuneration Board of the Senedd and transfer of functions**

(1) The Remuneration Board established by the National Assembly for Wales (Remuneration) Measure 2010 (“the 2010 Measure”) is abolished.

(2) All functions conferred on the Remuneration Board by the 2010 Measure are transferred to the Democracy and Boundary Commission Cymru.

(3) The Welsh Ministers may by regulations make further provision relating to the abolition of the Board and the transfer of its functions to the Democracy and Boundary Commission Cymru.’.

Tudalen 53, ar ôl llinell 21, mewnosoder adran newydd—

*'Diddymu Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd a throsglwyddo swyddogaethau*

**[ ] Diddymu Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd a throsglwyddo swyddogaethau**

(1) Mae'r Bwrdd Taliadau a sefydlwyd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("Mesur 2010") wedi ei ddiddymu.

(2) Mae'r holl swyddogaethau a roddwyd i'r Bwrdd Taliadau gan Fesur 2010 wedi eu trosglwyddo i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth bellach sy'n ymwneud â diddymu'r Bwrdd a throsglwyddo ei swyddogaethau i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.'.